Cyngor Wrecsam

Datganiad Llywodraethu Blynyddol
ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

This document is also available in English

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cynnwys

Adran 1 **Cyflwyniad ac Ardystiad**

Adran 2 **Nodi trefniadau llywodraethu allweddol**

2.1 Disgrifiad o'n trefniadau llywodraethu

Adran 3 **Gwerthuso effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu**

3.1 Effeithlonrwydd proses sicrwydd sy'n sail i'r broses werthuso

3.2 Effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu i gefnogi cyflawni deilliannau cynaliadwy a chyflawni'r 7 egwyddor llywodraethu da (A-G) a nodi materion llywodraethu sylweddol.

Adran 4 **Materion a Chamau Sylweddol**

4.1 Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â materion sylweddol a nodwyd mewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol blynyddoedd blaenorol

4.2 Camau i fynd i'r afael â materion llywodraethu sylweddol

Adran 1

Mae llywodraethu corfforaethol yn cyfeirio at y prosesau a ddilynir er mwyn cyfarwyddo, rheoli, ac arwain sefydliadau fel y cyngor a'u dwyn i gyfrif. Mae hefyd yn ymwneud â diwylliant a gwerthoedd - y ffordd y mae aelodau etholedig a gweithwyr yn meddwl ac yn gweithredu.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion llywodraethu da fel y nodwyd yn y 'Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016' - gwneud y pethau cywir yn y lle cywir, mewn ffordd sy'n amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cydnabod fod ganddo ddyletswydd i gael trefniadau cadarn a phriodol ar gyfer llywodraethu ei faterion ac mae wedi ymrwymo i adolygu ei drefniadau llywodraethu ac i wella trefniadau llywodraethu yn barhaus ar draws y cyngor cyfan.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) yn cwrdd â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 sydd angen i awdurdod lleol gynnal adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar effeithlonrwydd ei system rheolaeth fewnol a chynnwys datganiad yn adrodd ar yr adolygiad gyda'i Ddatganiad Cyfrifon a gyhoeddwyd.

Felly mae'r DLlB yn cyflwyno asesiad o faint mae'r cyngor, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu, sut mae wedi monitro a gwerthuso hyn yn ystod y flwyddyn a pha un a yw ei drefniadau'n parhau'n addas i bwrpas.

Mae'r adolygiad yn rhoi sicrwydd cyffredinol dda bod ein trefniadau yn parhau i fod yn addas i'r diben yn unol â gofynion fframwaith llywodraethu ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae cyfleoedd i gynnal a datblygu ein trefniadau llywodraethu wedi eu nodi a bydd y camau a gytunwyd gennym, sy'n eiddo i'n Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn ac adroddir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Llofnodwyd ar ran Cyngor Wrecsam:

Cynghorydd Pritchard
Arweinydd (Mai 2023)

Ian Bancroft
Prif Weithredwr (Mai 2023)

Adran 2 - Nodi trefniadau llywodraethu allweddol

2.1 Disgrifiad o'n trefniadau llywodraethu

Mae Cod Llywodraethu'r cyngor yn nodi pwysigrwydd i'r cyngor o lywodraethu corfforaethol da ac mae'n nodi ein fframwaith llywodraethu ein hunain. Mae'n seiliedig ar y 7 'egwyddor craidd' a nodwyd yn y 'Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da o fewn Llywodraeth Leol 2016' a ddyluniwyd yn sail i lywodraethu holl gyrff sector cyhoeddus.

Cod Llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Gwneir ein hymrwymiad i lywodraethu da ar draws yr egwyddorion craidd canlynol:

A. Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.

B. Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â budd-ddeiliaid

C. Diffinio canlyniadau yn ôl buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir.

E. Datblygu capasiti'r Cyngor, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo.

F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy ddulliau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth gref o arian cyhoeddus.

G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.

Mae ein cod yn cynnwys manylion y trefniadau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd hyn. Mae'n cynnwys y systemau a phrosesau, y cyfarwyddir a rheolir y Cyngor yn unol â nhw ac y mae'n atebol iddynt, yn ymgysylltu â nhw ac yn arwain y gymuned. Mae hefyd yn cynnwys ein gwerthoedd a'n diwylliant.

Ar draws y cyngor, mae yna ystod o gyrff a strwythurau sy'n cyflawni rôl bwysig i ddatblygu a chynnal y fframwaith llywodraethu:

Cyngor

- Pob un o'r 56 Aelod Etholedig
- Cymeradwyo Cynllun y Cyngor

- Cytuno ar y Cyfansoddiad, polisi a fframweithiau ariannol.

Cylch gorchwyl - Adran 4 o **Gyfansoddiad y Cyngor.**

Y Bwrdd Gweithredol

- Prif gorff gwneud penderfyniadau'r Cyngor.
- Yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac Aelodau Arweiniol sy'n gyfrifol am bortffolios penodol.
- Cylch gorchwyl - Adran 5 o **Gyfansoddiad y Cyngor.**

Swyddogion Llywodraethu Allweddol

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi'r swyddogaethau ar gyfer swyddogion llywodraethu allweddol, gan gynnwys swyddi statudol 'Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig' (Prif Weithredwr), 'Swyddog Adran 151' (Pennaeth Cyllid) a'r 'Swyddog Monitro' (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid), ac mae'n egluro rôl y swyddogion hyn ar gyfer sicrhau bod prosesau ar waith er mwyn galluogi'r Cyngor i ddiwallu ei ymrwymiadau statudol ac i ddarparu cyngor i Aelodau, swyddogion a phwyllgorau ar reolaeth staff, materion ariannol, cyfreithiol a llywodraethu moesegol.

Byrddau Blaenoriaeth

- Canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r cyngor fel y nodwyd yng Nghynllun y Cyngor.
- Adrodd i aelodau etholedig drwy drefniadau adroddiad perfformiad corfforaethol.

Pwyllgor Safonau.

- Hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad gan aelodau etholedig a chyfetholedig, ac yn monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Cylch gorchwyl - Adran 8 o **Gyfansoddiad y Cyngor.**

Pwyllgorau Craffu

- Yn cynnwys aelodau etholedig anweithredol.
- Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y cyngor a'r Bwrdd Gweithredol.
- Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad cyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys partneriaethau fel bo'n briodol.
- Cylch gorchwyl - Adran 7 o **Gyfansoddiad y Cyngor.**

Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Rheolwyr

- Bod yn gyfrifol am ddatblygu fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor, ei gynnal a'i weithredu.
- Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol a llywodraethiant effeithiol y Cyngor.

Grŵp Swyddogion Llywodraethu

- Adolygiad parhaus y fframwaith llywodraethu ac adolygu effeithiolrwydd.
- Yn atebol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Archwilio Mewnol

- Cynnig barn annibynnol a gwrthrychol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu.
- Cynnal rhaglen o archwiliadau ar sail risg, gan gynnwys gweithgarwch gwrth-dwyll ac ymchwiliadau.
- Adnabod meysydd i'w gwella wrth reoli risg.
- Yn atebol i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Pwyllgor statudol sydd yn darparu sicrwydd annibynnol ar amgylchedd rheoli mewnol y cyngor.
- Yn ystyried archwilio mewnol, adroddiadau arolygu a rheoleiddwyr, adroddiad Hunanasesiad y Cyngor.
- Cylch gorchwyl - Adran 9 o **Gyfansoddiad y Cyngor.**
- Sicrwydd allanol ac annibynnol ynglŷn â datganiadau ariannol y cyngor a threfniadau ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau i gyflawni'r deilliannau a chyfrifoldebau statudol a nodwyd i'r cyngor.

Archwilio, rheoleiddio ac arolygu allanol

- Sicrwydd allanol ac annibynnol ynglŷn â datganiadau ariannol y cyngor a threfniadau ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau i gyflawni'r deilliannau a chyfrifoldebau statudol a nodwyd i'r cyngor.

Adran 3 - Gwerthuso effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu

Mae'n ofynnol i'r cyngor gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y trefniadau sydd ganddo ar y gweill i gyflawni pob un o'r egwyddorion llywodraethu da a chefnogi cyflawniad y deilliannau cynaliadwy. Wrth gynnal yr adolygiad, mae'r cyngor yn ystyried sicrwydd o ystod o ffynonellau ac mae'r rhain wedi eu crynhoi ym mharagraff 3.1 isod.

Mae'r adolygiad blynyddol wedi'i strwythuro o amgylch yr egwyddorion craidd llywodraethu da, yn ystyried datblygiadau yn ystod y flwyddyn, nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau. Mae'r adolygiad wedi cael ei ddefnyddio i lywio'r asesiad cyffredinol hwn o'n trefniadau llywodraethu ac i nodi'r materion llywodraethu sylweddol ar gyfer 2023-24. Mae'r casgliadau a'r materion sylweddol wedi eu nodi ym mharagraff 3.2 isod.

Nid oes yna ddiffiniad CIPFA swyddogol o'r hyn sy'n 'fater sylweddol', fodd bynnag, yng nghyd-destun Cyngor Wrecsam, rydym yn ystyried y gall mater sylweddol gael ei ddiffinio fel:

- Rhwymedigaethau newydd sy'n ofynnol o'r sefydliad / heriau newydd a achoswyd gan effaith y pandemig, adfer busnes fel gweithgareddau arferol;
- Materion sy'n tanseilio neu'n bygwth cyflawniad amcanion sefydliadol;
- Methiant sylweddol i fodloni egwyddorion (ac is-egwyddorion) llywodraethu da;
- Maes sy'n bryder sylweddol i arolygwr, archwilydd allanol neu reoleiddiwr;
- Maes a argymhellwyd i'w gynnwys gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, un o'r swyddogion statudol, neu fater sydd angen gweithredu ffurfiol gan y Prif Swyddog Cyllid neu'r Swyddog Monitro;
- Mater sy'n torri ar draws y sefydliad ac angen cydweithrediad i roi sylw iddo;
- Mater sydd wedi arwain at ddiddordeb cyhoeddus sylweddol neu sydd wedi niweidio enw da yn sylweddol; neu,
- Mater oedd angen dargyfeirio adnoddau'n sylweddol.

3.1 Effeithlonrwydd proses sicrwydd sy'n sail i werthuso effeithlonrwydd.

Mae'r canlynol yn darparu amlinelliad byr o ffynonellau allweddol sicrwydd a ystyriwyd yn yr adolygiad a'u heffeithiolrwydd yn ystod 2022-23

Archwilio mewnol a sicrwydd archwilio
Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd annibynnol sy'n ymgymryd â gwaith a fydd yn llywio barn flynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor, gan gynnwys ei holl weithrediadau, adnoddau a gwasanaethau a chyfrifoldebau yn ymwneud â chyrff eraill. I wneud hyn, mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn darparu rhaglen wedi'i threfnu o archwiliadau (Cynllun Archwilio) ar asesu anghenion yn seiliedig ar risg.

Mae trefniadau adrodd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (y Safonau).

Cafodd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23 ei gyflwyno i GAC yn Mawrth 2022. Roedd 35 archwiliad wedi eu cynllunio, gyda chynllun wrth gefn wedi'i gynnwys i ganiatáu ar gyfer gwaith heb ei drefnu i'w gynnal fel bo'r angen. Yn 2022-23, cafodd 97% o'r Cynllun Archwilio Mewnol ei gwblhau ynghyd â 100% o'r gwaith heb ei gynllunio oedd yn codi. Roedd 38 archwiliad wedi eu cwblhau.

Mae crynodebau chwarterol o holl waith archwilio mewnol a gynhaliwyd yn nodi meysydd o wendid sylweddol yn fframwaith llywodraethu'r sefydliad, rheoli risg a rheolaeth ac adroddir i Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Llywodraethu ac Archwilio.

Barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a chyfeirio at unrhyw gyfyngiad cwmpas

Yn seiliedig ar ganfyddiadau archwilio mewnol, gweithredu/cynlluniau gweithredu a dderbyniwyd gan reolwyr a ffynonellau sicrwydd eraill, gan gynnwys Archwilio Allanol, Rheoli Risg, Swyddog Adran 151 y Cyngor a'r Swyddog Monitro, barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yw **yn y rhan fwyaf o'r meysydd gafodd eu harchwilio, mae fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor yn gyffredinol yn ddigonol ac yn effeithiol i gyflawni amcanion y Cyngor.**

Roedd Archwilio Mewnol yn amlygu un maes penodol i'w ystyried yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23.

Roedd gwaith Archwilio Mewnol yn amlygu rheoli contractwyr allanol fel maes cyffredinol i'w ystyried yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23, sy'n gyson gyda'r sicrwydd a roddwyd o'r Archwiliadau Iechyd a Diogelwch a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi nodi'r meysydd penodol canlynol lle'r oedd angen sylw pellach i sicrhau bod cydymffurfiaeth gyda fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor:

a) Trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer cwblhau hyfforddiant gorfodol;
b) Trefniadau gwydnwch ar gyfer rhwydweithiau TGCh. Roedd Archwilio Mewnol wedi cydnabod maint y gwaith a wnaed, fodd bynnag, mae hwn yn parhau'n faes risg uchel i'r Cyngor ac ar draws y sector cyhoeddus.
c) Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer ymatebion ffôn; a'r
d) Trefniadau ar gyfer rheoli ad-dalu benthyciadau adfywio.

Mae cyfrif llawn ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Mai 2023.

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA) yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu, yn darparu ffocws lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu da a safonau ariannol. Yn ystod y flwyddyn, roedd y pwyllgor wedi cyfarfod fel y trefnwyd, gan adolygu ei raglen waith yn rheolaidd i sicrhau bod cylch gorchwyl y pwyllgor yn cael ei gyflawni, cynnal hyfforddiant a datblygu perthnasol ac wedi cynnal cyfres o weithdai i werthuso ei effaith a'i effeithiolrwydd.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei ddal i gyfrif gan y Cyngor drwy adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi cyfrif cynhwysfawr o sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei Gylch Gorchwyl. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-2023

Archwilio ac arolygu allanol

Mae archwilio ac arolygu allanol yn allweddol ar gyfer ein fframwaith llywodraethu ac mae holl adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Prif Swyddogion yn bresennol i gyflwyno ymateb y cyngor i'r argymhellion ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn monitro gweithrediad y rhain. Mae adolygiadau 'lleol' Archwilio Cymru (e.e. penodol i Gyngor Wrecsam) yn cael eu cyflwyno'n unigol, gyda holl adroddiadau eraill a gyhoeddwyd (adroddiadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol ac adroddiadau lleol eraill gan arolygwyr eraill) wedi eu cynnwys mewn adroddiad crynodeb 6 mis (gyda diweddariad interim ychwanegol ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol)

Archwilio Cymru

Mae Archwilio Cymru, ein Harchwiliwr Allanol yn asesu trefniadau'r cyngor i gyflawni gwelliannau parhaus, gwerth am arian, cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol.

Mae Archwilio Cymru wedi ardystio ei fod wedi cyhoeddi barn gywir a theg anghymwys ar ein datganiadau ariannol 2021/22.

Mae Cynllun Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru yn cynnwys y rhaglen a drefnwyd o waith archwilio ar gyfer pob blwyddyn yn seiliedig ar ei asesiad o'r risgiau ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r cyngor. Mae canlyniadau'r gwaith hwn wedi'i gyhoeddi mewn Crynodeb Archwilio Blynyddol.

Roedd **Estyn (Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)** yn parhau i fonitro cynnydd y cyngor ar ei Gynllun Gweithredu Ôl-archwilio a luniwyd i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod Arolwg Estyn 2019 o wasanaethau addysg y cyngor. Cynhaliwyd ymweliad monitro ym mis Tachwedd 2022. Roedd adborth o'r ymweliad yn gadarnhaol ac roedd y gwaith gwerthuso yr oedd y cyngor wedi'i wneud wedi'i gydnabod. Mae arolwg llawn wedi'i drefnu ar gyfer yr haf 2023.

Roedd **Arolygiaeth Gofal Cymru** (AGC) wedi cynnal arolwg llawn o wasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant ym Mehefin 2022. Roedd adroddiad yr arolwg yn cydnabod y siwrnai gwella o fewn gwasanaethau plant ers 2019 ac yn cydnabod ymrwymiad y cyngor i wella a darparu adnoddau priodol ar gyfer "gwasanaeth uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar blant sy'n hybu lles plant"

Mewn perthynas â gwasanaethau oedolion, roedd yr adroddiad yn nodi'r angen am ganolbwynt clir ar sicrhau bod pobl yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir. Roedd yna gyfeiriad at oblygiadau negyddol i ofal pobl a hawliau dynol o fewn corff yr adroddiad ond roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod y cyngor yn gwneud ymdrechion i fynd i'r afael â'r mater, a nodwyd bod lleisiau'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu clywed.

Mae AGC yn disgwyl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ystyried y meysydd a nodwyd ar gyfer gwella a chymryd camau priodol i fynd i'r afael a gwella'r rhain.

Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei weithgaredd adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

Cafodd yr **Adolygiad Sicrwydd ac Asesu Risg Blynyddol** (Archwilio Cymru, Estyn ac AGC) ei gynnal ym mis Ionawr 2022 ac roedd yn helpu i lywio nodi materion sylweddol ar gyfer 2022-23.

Adroddwyd ar grynodeb o holl adroddiadau rheoleiddio allanol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref 2022 a Chwefror 2023 a diweddariad interim i gyd-fynd â'r adolygiad Llywodraethu Blynyddol ym Mai 2023.

Cydymffurfiaeth gyda'r Cod Rheolaeth Ariannol
Prif nod y Cod Rheolaeth Ariannol newydd yw gwella cadernid ariannol sefydliadau drwy ymgorffori safonau uwch o reolaeth ariannol. Cafodd camau i gyflawni cydymffurfiaeth lawn gyda'r Cod eu cwblhau ym mis Gorffennaf 2022.

Sicrwydd Prif Swyddog
Mae Prif Swyddogion yn cynnal asesiad llywodraethu o fewn eu gwasanaethau bob blwyddyn ac yn cwblhau Datganiad Sicrwydd Rheolaeth Fewnol (DSRhF). Mae'r rhain yn cael eu hadolygu i nodi unrhyw faterion llywodraethu o fewn gwasanaeth penodol neu ar draws y sefydliad sydd angen sylw. Mae'r canolbwynt ar faterion sicrwydd allweddol ble nad oes sicrwydd arall ar gael. Nid oes unrhyw faterion sylweddol wedi eu hamlygu i'w cynnwys yn y Datganiad hwn.

Adolygiad parhaus o effeithiolrwydd trefniadau - Grŵp Swyddogion Llywodraethu
Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wella llywodraethu yn barhaus ar draws y cyngor yn gyffredinol, drwy broses o werthuso ac adolygu parhaus, gan arwain at adolygiad blynyddol sy'n llywio'r DLIB. Mae'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu (GSLl), sy'n cynnwys swyddogion sy'n arwain ar faterion allweddol y fframwaith llywodraethu, yn ogystal â chynrychiolwyr gwasanaeth yn cyfarfod yn chwarterol i arwain ar y gwaith hwn: mae'n adolygu'r trefniadau llywodraethu ac effeithiolrwydd egwyddor craidd, yn nodi meysydd ar gyfer gwella a monitro ac adrodd ar gynnydd gyda'r camau DLIB. Mae'r GSLl yn adrodd i'r Uwch Dîm Arwain (UDA) a PLlA yn chwarter 2 a chwarter 4 (adolygiad blynyddol). Mae'r GSLl yn gyfrannwr allweddol i'r adolygiad blynyddol a pharatoi'r DLIB.

Rheoli Risg
Mae Prif Swyddogion ac uwch reolwyr dynodedig yn gyfrifol am nodi'r peryglon i gynllunio a darparu gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethu'r cyngor ac mae'r rhain yn cael eu cofnodi mewn cofrestrau risg gwasanaeth, ynghyd â rheolyddion ar waith i reoli'r risgiau. Rheoli risg yn gweithredu fel y bwriadwyd yn ystod 2021-22.

Adroddir ar gofrestrau risg i Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarter 2 a chwarter 4. Mae'r PLlA yn cymryd diddordeb yn effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg.

Mae Byrddau Blaenoriaethu'r cyngor hefyd wedi nodi y risgiau hynny o fewn cofrestrau risg gwasanaeth sy'n ymwneud â chyflawni blaenoriaethau'r cyngor, i'w galluogi i gael eu rheoli.

3.2 Gwerthuso effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu i gefnogi cyflawni deilliannau cynaliadwy a chyflawni'r egwyddorion llywodraethu da a nodi materion llywodraethu sylweddol.

Mae'r adran hon yn nodi pob un o'r 7 egwyddor llywodraethu da a'u diffiniadau cefnogol (A-G), ynghyd ag asesiad o'n heffeithiolrwydd ac unrhyw faterion sylweddol a nodwyd ar gyfer cynnwys yn y cynllun gweithredu DLlB.

Egwyddor A: Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.

"Mae sefydliadau llywodraeth leol yn atebol nid yn unig i faint y maent yn ei wario, ond hefyd ar gyfer sut y maent yn defnyddio'r adnoddau sydd o dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am ddeilliannau, cadarnhaol a negyddol, ac ar gyfer y canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt. Hefyd, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu er budd y cyhoedd gan gadw at ofynion deddfwriaethau a pholisïau'r llywodraeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n hanfodol y gall pob endid yn ei gyfanrwydd ddangos pa mor briodol yw ei holl weithredoedd a bod ganddo fecanweithiau ar waith i annog a gorfodi cadw at werthoedd moesegol ac i barchu rheol y gyfraith."

Asesu:

Mae gan y cyngor adnoddau, polisïau a phrosesau da ar waith i gefnogi safonau ymddygiad, safonau moesegol uchel a chydymffurfio â rheol y gyfraith. Fodd bynnag, mae angen parhau i weithio i sicrhau bod cefnogaeth a hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gymeradwyo egwyddorion llywodraethu da a sicrhau bod ganddo gyngor cefnogol a pharchus, gydag Aelodau Etholedig a swyddogion sy'n datblygu dealltwriaeth dda o'u rolau a chyfrifoldebau.

Materion sylweddol i'w cynnwys mewn Cynllun Gweithredu DLIB.

- Diwylliant, gwerthoedd, ymddygiad a ffordd o weithio mewn cyfarfodydd cyhoeddus.
- Ystyried a lleddfu goblygiadau penderfyniad y Cyngor i beidio mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol, yn sgil cyngor a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

Egwyddor B: Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n gynhwysfawr â budd-ddeiliaid.

"Mae llywodraeth leol yn cael ei gynnal er budd y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir sefydledig i ymgysylltu'n effeithiol â phob rhanddeiliad, fel dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol."

Asesu:

Mae'r cyngor yn parhau i gynnwys y cyhoedd a'i randdeiliaid wrth gynllunio gwasanaeth ar gyfer y dyfodol ac mae'n parhau i weithio i ymgorffori egwyddorion ymgysylltu ar draws holl wasanaethau. Mae'n ymwybodol o ble mae angen gwella cyfraddau cydymffurfiaeth a hygyrchedd gwybodaeth i gefnogi bod yn agored ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn. Mae

gwneud penderfyniad yn parhau i fod yn agored a thryloyw: mae cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu gweddarlledu, ac mae Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus y Cyngor wedi'i gyhoeddi yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Materion sylweddol i'w cynnwys mewn Cynllun Gweithredu DLIB.

- Dim

Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn ôl buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy.
"Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau llywodraeth leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas yr awdurdod, cyfrannu at fuddion a chanlyniadau bwriedig, ac aros o fewn terfynau awdurdod a diben. Mae mewnbwn oddi wrth bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwyso galwadau sy'n cystadlu wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig.

Asesu:

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i ymgorffori mewn prosesau cynllunio'r cyngor ac mae'r cyngor yn parhau i weithio ar wella ar adrodd am hyn i aelodau etholedig a rhanddeiliaid. Roedd y cyngor yn cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) gyda'i asesiad o les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn Wrecsam a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022 ac mae'n llywio cynllunio lles ar gyfer y dyfodol gan y BGC a'r Cyngor. Mae blaenoriaethau arfaethedig y cyngor ar gyfer 2023-28 wedi eu strwythuro o amgylch datganiadau deilliant sy'n anelu at gynnig eglurder o ddeilliannau mae'r cyngor yn anelu i'w cyflawni. Mae ymgynghori ar flaenoriaethau arfaethedig wedi cynnwys ffocws ar gydraddoldeb a thegwch. Bydd blaenoriaethau yn cael eu tanseilio gan fesurau deilliant i ddangos cynnydd.

Materion sylweddol i'w cynnwys mewn Cynllun Gweithredu DLIB.

- Dim

Egwyddor D: Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir.
"Mae llywodraeth leol yn cyflawni ei ganlyniadau a fwriedir drwy ddarparu cymysgedd o ymyraethau cyfreithiol, rheoliadol ac ymarferol (dull gweithredu). Mae penderfynu ar y cymysgedd cywir o ymyraethau yn ddewis strategol hynod bwysig y mae gofyn i lywodraeth leol ei wneud i sicrhau ei fod yn cyflawni canlyniadau a fwriedir. Mae'n rhaid i endidau sector cyhoeddus gael mecanweithiau gwneud penderfyniadau cadarn yn eu lle i sicrhau bod eu canlyniadau yn gyraeddadwy mewn ffordd sy'n darparu'r cyfnewidiad gorau rhwng yr adnoddau gwahanol a ddefnyddir ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Mae angen adolygu

penderfyniadau a wneir yn barhaus er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni i'r eithaf.”

Asesu:

Yn gyffredinol, roedd y cyngor wedi perfformio’n dda mewn perthynas â’r egwyddor hon. Mae’n cynnwys cynnydd da i nodi a gweithredu ymyriadau ac i gefnogi gwasanaethau ble mae angen adnoddau ychwanegol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gaffael system rheoli perfformiad a risg corfforaethol newydd a fydd yn gwella ein gallu i ddadansoddi ac adrodd ar gyflawni ein blaenoriaethau a phennu ymyriadau angenrheidiol.

Mae’r cyngor wedi cynnal ei ffocws ar ei siwrnai gwella corfforaethol a gwasanaeth, gan weithio’n agos gyda rheoleiddwyr, datblygu cynlluniau gwella a chyflawni ailstrwythuro. Mae yna ddull uchelgeisiol parhaus o sicrhau y manteisir i’r eithaf ar gyfleoedd economaidd heddiw ac yn y dyfodol, gyda ffocws clir ar wydnwch ariannol a chynllunio.

Materion sylweddol i’w cynnwys mewn Cynllun Gweithredu DLIB.

- Perfformiad ysgolion uwchradd
- Blaenoriaethu ac ymgorffori datgarboneiddio ar draws y sefydliad

Egwyddor E: Datblygu capasiti’r Cyngor, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a’r unigolion oddi mewn iddo.

“Mae’n rhaid i’r cyngor gael strwythurau ac arweinyddiaeth briodol, yn ogystal â phobl â'r sgiliau, cymwysterau a’r meddylfryd priodol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a chyflawni’r canlyniadau a fwriedir ar eu cyfer o fewn y cyfnodau a bennir. Rhaid sicrhau fod ganddo’r cynhwysedd i gyflawni ei fandad ei hun a sicrhau fod polisïau mewn lle i warantu fod ei reolaeth yn medru gweithredu'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a’r amgylchedd y mae’r cyngor yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen datblygu cynhwysedd y cyngor yn barhaus, yn ogystal â sgiliau a phrofiad aelodau unigol o staff. Bydd arweinyddiaeth yn cael ei chryfhau gan gyfranogiad pobl o lawer o wahanol fathau o gefndiroedd, gan adlewyrchu'r strwythur ac amrywiaeth cymunedau.”

Asesu:

Mae’r cyngor wedi parhau â’i ymrwymiad i sicrhau cyngor modern a gwydn ac mae’n parhau i weithredu ei Strategaeth TGCh a Digidol ac ymgorffori ei raglen ffyrdd modern o weithio. Mae’n cydnabod pwysigrwydd gweithlu cynaliadwy a gwydn i ddarparu gwydnwch sefydliadol a mynd i’r afael â’r heriau cadw a recriwtio a wynebir ar hyn o bryd yn lleol ac yn genedlaethol. Mae’n parhau i ddatblygu ei waith yn y maes hwn i fod yn Gyflogwr o Ddewis. Mae’r cyngor yn parhau i ddarparu cefnogaeth les ardderchog i’w weithlu, ac mae hyn wedi’i gydnabod gan ei Wobr Asesu Iechyd Corfforaethol Aur.

Mae’r cyngor wedi dangos ymrwymiad i ddatblygu cyngor newydd effeithiol, gyda ffocws ar aelodau newydd a rhai sy’n dychwelyd, fodd bynnag, mae wedi nodi risg barhaus mewn perthynas ag aelod etholedig yn derbyn cyfleoedd

hyfforddiant, yn ogystal â'r angen i wella sicrwydd o amgylch hyfforddiant gweithlu (hyfforddiant craidd a modiwlau e-ddysgu llywodraethu allweddol).

Mae'r cyngor yn croesawu buddion posibl o weithio mewn partneriaeth i gynyddu capasiti i gyflawni amcanion a rennir a gwella gwasanaethau, ond yn cydnabod cymhlethdod sydd weithiau i sicrhau llai o ddyblygu a mwy o werth am arian.

Materion sylweddol i'w cynnwys mewn Cynllun Gweithredu DLIB.

- Gwella Recriwtio a Chadw
- Gwella mwy o fodiwlau e-ddysgu llywodraethu allweddol a chraidd gan Aelod Etholedig

Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy ddulliau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth gref o arian cyhoeddus.

"Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod wedi rhoi system rheoli perfformiad effeithiol ar waith ac y gall ei chynnal er mwyn medru darparu gwasanaethau a gynlluniwyd yn effeithiol ac effeithlon. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o'r system hon ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Mae system gadarn o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisiau a chyflawni deilliannau a fwriedir. Mae hefyd yn hanfodol fod gan y Cyngor ddiwylliant a strwythur craffu mewn lle fel rhan allweddol o drefniadau gwneud penderfyniadau atebol a gwneud ac adolygu polisïau."

Asesu:

Roedd yr amgylchedd rheolaeth fewnol ar gyfer perfformiad yn gweithredu fel y cynlluniwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd da i adolygu polisiau allweddol sydd wedi dod i ben a sicrhau yr ymgymerir â strategaethau yr effeithir arnynt gan Covid-19 ac mae cynnydd yn cael ei fonitro'n barhaus gyda hyn. Mae risgiau allweddol wedi eu nodi ac mae camau i fynd i'r afael â'r materion sylweddol hyn ar y gweill ac yn parhau.

Mae cynllunio rhag argyfwng a cynlluniau parhad gwasanaeth wedi eu profi ac yn parhau i gael eu diweddaru a dysgwyd gwersi o ddigwyddiadau.

Mae'r cyngor yn cydnabod yr angen am reolaeth ariannol cyhoeddus cynyddol gadarn a chryf i gefnogi gofynion gweithredol tymor byr a hirdymor er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r cyngor o fewn cyllidebau cytbwys mewn amgylchedd economaidd heriol. Mae'r cyngor yn parhau i gynllunio ar gyfer hyn yn weithredol.

Byddai'n ddarbodus i'r cyngor werthuso trefniadau rheoli cyllideb a rhagolygon i dderbyn sicrwydd eu bod yn ddigon cadarn, yn sgil cost cyfnewidiol a'r galw.

Materion sylweddol i'w cynnwys mewn Cynllun Gweithredu DLIB.

- Gwydnwch ariannol oherwydd pwysau cynyddol ar gyllidebau gwasanaeth oherwydd y lefelau uchel o ddisgwyliadau a galw cynyddol a chostau, yn arbennig o fewn gofal cymdeithasol.

- Rheoli contractau (Fframwaith Llywodraethu Iechyd a Diogelwch)

Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol
“Mae atebolrwydd yn ymwneud â sicrhau fod y rheiny sy’n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn atebol ar eu cyfer. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig ag adrodd am gamau gweithredu a gymerwyd, ond hefyd sicrhau fod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i’r Cyngor gynllunio ac ymgymryd â’i weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae’r swyddogaeth archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.”

Asesu:

Roedd y cyngor wedi cynnal arferion da ynghylch tryloywder ac archwilio drwy’r flwyddyn, gan gynnwys adrodd corfforaethol yn unol ag amserlenni a chadw at reoliadau ansawdd ar gyfer adroddiadau, yn ogystal ag adrodd ar effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu sy’n arwain at y DLIB.

Mae’r cyngor, mewn partneriaeth gyda’i bartneriaid yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru wedi ymrwymo i wella llywodraethu a thryloywder partneriaethau, fel yr amlygwyd gan reoliad ac archwiliad allanol.

Materion sylweddol i’w cynnwys mewn Cynllun Gweithredu DLIB:

- Dim

Adran 4 Materion a Chamau Sylweddol

4.1 Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â materion sylweddol a nodwyd mewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol blynyddoedd blaenorol

Mater: Parhau ein siwrnai o welliannau corfforaethol a gwelliannau i'n gwasanaethau y gwelir tystiolaeth ohonynt mewn blaenoriaethau cysylltiedig â chyrff rheoleiddio allanol.

Camau gweithredu:

- Ennill graddau digonol/boddhaol gan Estyn (i wella addysg ysgol uwchradd).
- Cynnal a pharhau i wneud gwelliannau er mwyn cyrraedd safon dda o wasanaeth mewn gofal cymdeithasol plant yn unol â disgwyliadau Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau y caiff anghenion plant eu diwallu.
- Parhau â'r siwrnai gwella yn y meysydd corfforaethol neu'r meysydd gwasanaeth sydd â chynlluniau gwella neu ailstrwythuro ar lefel uwch ar waith - Datgarboneiddio (corfforaethol); Cynllunio (gwasanaeth); a Thai (gwasanaeth).

Cynnydd 2022/23:

Addysg Ysgol Uwchradd: Rydym yn parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiaeth Estyn i wella addysg uwchradd ac mae'r holl gamau priodol sy'n weddill ar y trywydd iawn. Bu cyfarfodydd dilynol cadarnhaol gydag Estyn ac mae arolygiaeth lawn wedi'i threfnu ar gyfer yr haf 2023. Mae un ysgol uwchradd yn parhau mewn mesurau arbennig.

Gofal Cymdeithasol i Blant: Mae AGC wedi parhau i ddarparu adroddiadau arolygu cadarnhaol ac adeiladol mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant. Cafodd arolygiaeth gwerthuso perfformiad gofal cymdeithasol ei gynnal ym mis Mehefin 2022: roedd yr adroddiad yn cydnabod nifer o welliannau cadarnhaol, a'r meysydd hynny a nodwyd ar gyfer gwelliant oedd y rhai yr oeddem eisoes wedi eu nodi a'u cynnwys yn ein cynlluniau gwasanaeth. Yn yr Hydref 2022 roedd Bwrdd Gwelliant Cyflym Gwasanaethau Plant wedi ehangu i fod yn Fwrdd Gwella Gofal Cymdeithasol, i gydnabod y cynnydd a wnaed gyda gofal cymdeithasol plant a'r angen nawr i gynnwys ffocws ar ofal cymdeithasol oedolion.

Datgarboneiddio: Mae ein Cynllun Datgarboneiddio a chynlluniau gweithredu yn cael eu cwblhau a'u datblygu ac mae pedwar ffrwd gwaith datgarboneiddio wedi eu datblygu i gefnogi eu cyflawni. Bydd pob adran yn nodi arweinwyr thema fydd yn gallu cefnogi datgarboneiddio o fewn eu maes gwaith er mwyn rhoi ffocws ar ymgorffori datgarboneiddio yn arferion gwaith y cyngor. Roedd Archwilio Cymru wedi cynnal asesiad o drefniadau'r cyngor i ddatblygu a darparu'rCynllun Datgarboneiddio a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023: roedd yn canfod tra bod y cyngor yn gwneud cynnydd ar eu huchelgais datgarboneiddio, mae angen gwneud mwy o waith i gadarnhau ei ôl-troed carbon, datblygu a blaenoriaethu camau gweithredu a nodi adnoddau i gyflawni hyn'.

Meysydd gwasanaeth/corfforaethol eraill:

Gwasanaeth Cynllunio: Roedd adolygiad annibynnol y Gwasanaeth Cynllunio (2021), a gynhaliwyd mewn ymateb i bryderon aelod etholedig a rhai preswylwyr, yn canfod bod perfformiad y gwasanaeth yn gredadwy yn wyneb cyfyngiadau ariannol a brofwyd dros sawl blwyddyn, ond gwnaed nifer o argymhellion i wella'r Gwasanaeth Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Cynllunio. Adroddir ar gynnydd i'r Bwrdd Gweithredol (bob 6 mis): gwnaed cynnydd mewn perthynas â nifer o argymhellion gan gynnwys lleihau maint y Pwyllgor Cynllunio, cynnydd i gaffael system TGCh newydd, cwblhau adolygiad adnoddau gweithlu a recriwtio helaeth, ynghyd ag amrywiol welliannau gwasanaeth. Mae camau gweithredu yn parhau, a thrydedd elfen o'r adolygiad - gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun Datblygu Lleol - i gael ei gynnal yn dilyn penderfyniad y Cyngor (19 Ebrill 2023).

Tai ac Asedau: Mae trefniadau ailstrwythuro'r Gwasanaeth Tai ac Asedau a drefnwyd wedi digwydd. Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi'i sefydlu ac mae recriwtio ar y gweill.

Casgliad:

Cynnydd da mewn maes allweddol gwasanaethau cymdeithasol plant. Mae hyn yn parhau'n fater mewn perthynas â phwysau ar gyllidebau gwasanaeth oherwydd lefelau uchel o ddisgwyliadau a'r galw cynyddol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y mater sylweddol sy'n ymwneud â gwydnwch ariannol.

Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda gwelliannau o fewn addysg uwchradd - fodd bynnag, bydd hyn yn parhau fel mater sylweddol nes bydd canlyniad arolwg Estyn (haf 2023) ar gael.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud i weithredu argymhellion yr Adolygiad Cynllunio annibynnol ac mae monitro rheolaidd ar waith - dileu fel mater sylweddol.

Datgarboneiddio - angen blaenoriaethu ac ymgorffori datgarboneiddio yn niwylliant y sefydliad fel ei fod yn dod yn arfer normal - cynnwys fel mater sylweddol.

Mater: Gwydnwch sefydliadol a chymunedol

Camau gweithredu

- Gweithio tuag at sicrhau bod y gweithlu'n gynaliadwy; gweithio mewn ffordd fodern a gwydn, gweithio fel un cyngor, cael sgyrsiau gonest sy'n galluogi.
- Mae ymyriadau amserol a strwythurau cyflog priodol wedi'u sefydlu ar gyfer ein gwasanaethau lle bo hynny'n briodol i wella recriwtio a dal gafael ar staff.
- Ein rheolaeth ariannol - sicrhau bod y cyngor yn ariannol wydn ac yn ddynamig wrth gwrdd â risgiau ariannol ôl-Covid a gwella adrodd ar y gyllideb i aelodau etholedig.
- Sicrhau ein bod yn mwyhau'r cyfleoedd economaidd presennol sydd ar gael i wneud yn iawn am effaith Covid-19 (fel materion costau byw) - ystod mentrau - Statws Dinas, y Gronfa Ffyniant Gyffredin, Ffyniant Bro, Porth Wrecsam, Safle Treftadaeth y Byd.

Cynnydd 22/23:

Mae'r flaenoriaeth Sicrhau Cyngor Modern a Gwydn wedi parhau i gael ei ddatblygu a nodwyd fel blaenoriaeth parhaus i'r cyngor yn ei Gynllun Cyngor (drafft) 2023-28. Ar ddiwedd y cynllun cyngor presennol roedd ei gynnydd yn Wyrdd (dros dro - i'w gadarnhau gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Gorffennaf drwy C4 adroddiad perfformiad) o ran cyflawni ei amcanion.

Roedd gwaith i adolygu buddiannau tâl a gwobrwyo wedi dechrau yn ystod y flwyddyn ac mae'n parhau. Mae gwaith cynllunio ar gyfer y Strategaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliad newydd ar y gweill ac yn cynnwys gweithredu ffrydiau gwaith i leddfu materion recriwtio a chadw a brofir ar draws gwasanaethau a bydd y gwaith hwn yn cael ei alinio gyda blaenoriaethau newydd y cyngor. Mae gwaith yn parhau ar ymgyrch 'Meithrin ein Talent ein Hunain' a hybu gyrfa. Mae Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofal Cymdeithasol yn cael ei weithredu i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol yn y maes gwasanaeth hwn, a brofir yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r cyngor wedi cytuno ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig a chyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24. Mae gweithdai rheolaidd wedi eu cynnal i aelodau drwy gydol y flwyddyn ar gyllid llywodraeth leol, rhagdybiaeth ar gyfer y gyllideb, cyllidebau cenedlaethol a rhagolygon economaidd, yn ogystal â phwysau ar y gwasanaeth, risgiau a chronfeydd wrth gefn y cyngor. Adroddiad bob chwarter ar y gyllideb i'r Bwrdd Gweithredol

Derbyniodd Wrecsam Statws Dinas ym mis Medi 2022. Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei gweinyddu ac mae Porth Wrecsam yn datblygu er gwaethaf cais aflwyddiannus i'r Gronfa Ffyniant Bro.

Casgliad:

Cynnydd da gyda'r flaenoriaeth hon a gyda gwydnwch ariannol, ond mwy o alw am y gwasanaeth a setliad ariannol heriol ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn golygu bod hyn yn parhau'n risg sylweddol.

Mae recriwtio a chadw yn parhau'n her mewn rhai rolau ar draws nifer o feysydd gwasanaeth y cyngor a phrofir hyn ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol.

Mater: Sicrhau Cyngor newydd effeithiol.

- Meithrin diwylliant cefnogol a pharchus.
- Sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau (aelodau etholedig a swyddogion).
- Sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Cynnydd 2022/23:

Cyfarfod sefydlu cynhwysfawr i aelodau etholedig newydd a rhai sy'n dychwelyd wedi'i gyflwyno rhwng Mai - Gorffennaf 2022. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi nodi diffyg aelodau sy'n derbyn hyfforddiant craidd/gorfodol fel

risg lywodraethol ac mae wedi gwneud argymhellion i wella prosesau ac atebolrwydd.

Roedd y cyfarfod sefydlu yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau a disgwyliadau diwylliant cefnogol a pharchus. Mae'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid wedi sicrhau y dilynir y Protocol Cyfathrebu Aelodau a Swyddogion a bod materion unigol yn cael eu datrys yn briodol.

Mae gwaith i gefnogi aelodau etholedig a swyddogion i ddeall rolau a chyfrifoldebau yn parhau ac i gefnogi gwerthoedd ac ymddygiad cadarnhaol. Seminar Arweinyddiaeth ar gyfer aelodau etholedig, Penaethiaid Gwasanaeth a Phrif Swyddogion a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023.

Roedd Archwilio Cymru wedi adolygu ein cydymffurfiaeth gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ac ni nodwyd unrhyw feysydd diffyg cydymffurfiaeth neu argymhellion.

Casgliad:

Cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ddim yn fater sylweddol mwyach.

Diwylliant, gwerthoedd, ymddygiad a ffordd o weithio mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn fater sylweddol.

Mae goblygiadau llywodraethu o'r nifer isel o aelodau sy'n derbyn hyfforddiant craidd a modiwlau e-ddysgu llywodraethu allweddol yn fater sylweddol newydd.

4.2 Camau i fynd i'r afael â materion llywodraethu sylweddol.

Mae effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu yn cael eu hadolygu drwy gydol y flwyddyn, gan arwain at adolygiad blynyddol. Mae'r adolygiad wedi dynodi 8 mater arwyddocaol y bydd yn rhaid rhoi sylw iddynt yn 2022-23, ynghyd â chamau allweddol i'w cymryd i sicrhau gwelliant. Mae'r rhain wedi eu hadlewyrchu yn ein risgiau corfforaethol yng Nghofrestr Risg y cyngor.

Egwyddor A: Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.

Mater sylweddol 1 - Diwylliant, gwerthoedd, ymddygiad a ffordd o weithio mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

Risg (gan gynnwys cyfeirio at y gofrestr risg)

- C09 - Mae risg bod y Cyngor yn cael ei ansefydlogi oherwydd digwyddiadau neu ddatblygiadau gwleidyddol (mewnol neu allanol)
- GC 008 - Aelodau neu swyddogion yn torri codau moesegol.

Camau Lliniaru

- Seminar Arweinyddiaeth (aelodau etholedig, Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth) - ffocws parhaus ar werthoedd, ymddygiad, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysoldeb (Ebrill 2023) a rhaglen ddilynol.
- Ymgorffori ffyrdd o weithio wedi'i rannu yng nghyfarfod sefydlu'r cyngor.

- Ymgorffori ymddygiad a gwerthoedd wedi eu diweddaru yng Nghynllun newydd y Cyngor.
- Codau Ymddygiad

Mater Sylweddol 2 - Ystyried a lleddfu goblygiadau penderfyniad y Cyngor i beidio mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol

Risg (gan gynnwys cyfeirio at y gofrestr risg)

- C07 - Mae risg y bydd y Cyngor yn methu â chydymffurfio a'i ofynion statudol a llywodraethu

Camau Lliniaru

Archwilio dewisiadau o ran (sut i):

- Ymateb i unrhyw benderfyniadau mae Llywodraeth Cymru neu lysoedd y gyfraith yn ei wneud am y Cyngor ddim yn mabwysiadu'r CDLl.
- Gweithio heb CDLl ar waith.

Egwyddor D: Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir.

Mater Sylweddol 3 - Perfformiad ysgol uwchradd

Risg (gan gynnwys cyfeirio at y gofrestr risg)

- PR04 - Mae risg bod adnoddau refeniw a chyfalaf yn annigonol i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd a bodloni rhwymedigaethau ar adeg pan fo galw cynyddol am wasanaethau.

Camau Lliniaru

- Parhau i ddatblygu Cynllun Gweithredu ÔI Arolwg (CGOA).
- Arolwg Llawn Estyn (Haf 2023).

Mater Sylweddol 4 - Blaenoriaethu ac ymgorffori datgarboneiddio ar draws y sefydliad

Risg (gan gynnwys cyfeirio at y gofrestr risg)

- PR04 - Mae risg bod adnoddau refeniw a chyfalaf yn annigonol i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd a bodloni rhwymedigaethau ar adeg pan fo galw cynyddol am wasanaethau.

Camau Lliniaru

- Cynllun Arwain yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gyfer Datgarboneiddio.
- Gweithgorau adrannol a gweithdai, ac adnabod ffrydiau gwaith/themâu arweiniol.
- Cynnydd yn cael ei adrodd i Fwrdd Datblygu a Datgarboneiddio'r Amgylchedd, Craffu Cartrefi a'r Amgylchedd a'r Bwrdd Gweithredol.
- Sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol.

- Ystyried adnoddau wrth osod cyllideb a chamau gweithredu.

Mater Sylweddol 5 - Gwella Recriwtio a Chadw

Risg (gan gynnwys cyfeirio at y gofrestr risg)

- PR05 - Mae risg nad yw'r Cyngor yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau, y capasiti, y diwylliant a'r gallu i foderneiddio er mwyn parhau i fodloni ei flaenoriaethau a'i gyfrifoldebau.

Camau Lliniaru

- Strategaeth Sefydliad a Datblygu Gweithlu - yn cynnwys ffrydiau gwaith i liniaru materion recriwtio a chadw a brofir mewn rhai gwasanaethau.
- Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofal Cymdeithasol.
- Ffair Swyddi ar draws y Cyngor i hybu cyfleoedd y cyngor (Mehefin 2023)

Mater Sylweddol 6 - Gwella mwy o Aelodau Etholedig yn cwblhau hyfforddiant craidd a modiwlau e-ddysgu llywodraethu allweddol

Risg (gan gynnwys cyfeirio at y gofrestr risg)

- PR05 - Mae risg nad yw'r Cyngor yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau, y capasiti, y diwylliant a'r gallu i foderneiddio er mwyn parhau i fodloni ei flaenoriaethau a'i gyfrifoldebau.

Camau lliniaru

- Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Chofrestru a Datblygu Gweithlu yn gweithio gyda'r aelodau etholedig i wella'r nifer ac atebolrwydd.
- Monitro chwarterol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy ddulliau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth gref o arian cyhoeddus.

Mater Sylweddol 7 - Gwydnwch ariannol oherwydd pwysau cynyddol ar gyllidebau gwasanaeth oherwydd y lefelau uchel o ddisgwyliadau a galw cynyddol a chostau, yn arbennig o fewn gofal cymdeithasol.

Risg (gan gynnwys cyfeirio at y gofrestr risg)

- C04 - Mae risg bod adnoddau refeniw a chyfalaf yn annigonol i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd a bodloni rhwymedigaethau ar adeg pan fo galw cynyddol am wasanaethau

Camau lliniaru

- Gwerthuso prosesau monitro a chynllunio cyllideb yn sgil amgylchedd economaidd heriol parhaus.
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- Adroddiad bob chwarter i'r Bwrdd Gweithredol.

Mater Sylweddol 8 - Rheoli contractau (Fframwaith Llywodraethu Iechyd a Diogelwch)

Risg (gan gynnwys cyfeirio at y gofrestr risg)

- C07 - Mae risg y bydd y Cyngor yn methu â chydymffurfio a'i ofynion statudol a llywodraethu

Camau lliniaru

- Dilyniant Archwilio Mewnol